

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Y Bumed Senedd

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Sarah Beasley
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.15	Cysylltu@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15–09.30)

1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)

2 **Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru):**

Trafodion Cyfnod 2

(09.30–10.15)

(Tudalennau 1 – 4)

Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd, Llywodraeth
Cymru

Sarah Tyler, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Papur 1 – Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Papur 2 – Grwpio Gwelliannau

Papur 3 – Y drefn bleidleisio ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd

[Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Indemniadau\) \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#)

[Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Indemniadau\) \(Cymru\) – Memorandwm](#)

[Esboniadol](#)

3 **Papurau i'w nodi**

(10.15)



3.1 Llythyr gan y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

(Tudalennau 5 – 7)

3.2 Llythyr gan y Gymdeithas Gwarchod Meddygol ynghylch Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

(Tudalennau 8 – 9)

3.3 Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

(Tudalennau 10 – 11)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(10.15)

5 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trefn y drafodaeth

(10.15–10.20)

(Tudalennau 12 – 15)

Papur 7: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trefn y drafodaeth

6 Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru – Gwaith dilynol

(10.20–10.35)

(Tudalennau 16 – 30)

Papur 8 – Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru – Gwaith dilynol

7 Blaenraglen Waith: Trafod y flaenraglen waith

(10.35–11.20)

(Tudalennau 31 – 38)

Papur 9 – Blaenraglen waith

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

National Health Service (Indemnities) (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
 Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
 The Bill will be considered in the following order—
 Sections 1 - 2 Adrannau 1 - 2

Angela Burns

1

Page 2, after line 41, insert a new section—

[] Duty to prepare and publish a report on the effect of this Act

- (1) As soon as practicable after the end of the reporting period, the Welsh Ministers must prepare and publish a report on the effect of this Act.
- (2) The report must include, but is not limited to, a review of—
 - (a) the participation of bodies and persons listed in section 30(2) of the National Health Service (Wales) Act 2006,
 - (b) the financial implications, and
 - (c) the cross-border issues,
 that have arisen as a result of this Act.



- (3) The reporting period, for the purposes of this section, is the period of 18 months beginning with the day on which this Act comes into force.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 41, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon

- (1) Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon.
- (2) Rhaid i’r adroddiad gynnwys adolygiad o’r canlynol, ond nid yw’n gyfyngedig iddynt –
- (a) cyfranogiad cyrff a phersonau a restrir yn adran 30(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006,
 - (b) y goblygiadau ariannol, ac
 - (c) y materion trawsffiniol,
- sydd wedi codi o ganlyniad i’r Ddeddf hon.
- (3) Y cyfnod adrodd, at ddibenion yr adran hon, yw’r cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Ddeddf hon i rym.’.

Angela Burns

2

Section 2, page 3, line 3, leave out ‘the day after the day on which this Act receives Royal Assent’ and insert –

‘a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.

- (3) An order made under subsection (1) may not provide for any provision of this Act to come into force before an agreement has been reached between the Welsh Government and the Medical Defence Union in relation to the transfer of appropriate assets’.

Adran 2, tudalen 3, llinell 4, hepgorer ‘drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol’ a mewnosoder –

‘ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir gan offeryn statudol.

- (3) Ni chaiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (1) ddarparu i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ddod i rym cyn bod Llywodraeth Cymru a’r Undeb Amddiffyn Meddygol wedi dod i gytundeb mewn perthynas â throsglwyddo asedau priodol’.



GRWPIO GWELLIANNAU GROUPINGS OF AMENDMENTS

Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

National Health Service (Indemnities) (Wales) Bill

Cyfnod 2 ar 11 Rhagfyr 2019
Stage 2 on 11 December 2019

Mae'r ddogfen hon yn nodi ym mha drefn y caiff y gwelliannau eu trafod ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob grŵp. Nid yw'r rhestr hon yn disodli'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, sy'n nodi'r gwelliannau yn y drefn y cânt eu gwaredu. Dylai'r rhestr hon gael ei darllen ar y cyd â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

This document provides the order in which amendments will be debated and any relevant procedural information relevant to each group. This list does not replace the marshalled list, which sets out the amendments in the order in which they will be disposed of. This list should be read in conjunction with the marshalled list.

1. Dyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon

Duty to prepare and publish a report on the effect of this Act

1

2. Dod i rym

Coming into force

2



Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)
Cyfnod 2: Y drefn bleidleisio ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd

Rhif y gwelliant	Aelod	Rhif y dudalen ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli	Y drefn bleidleisio	Y grŵp y mae'n ymwneud ag ef (rhif a theitl)
1	Angela Burns	1	1	Grŵp 1 - Dyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon
2	Angela Burns	2	2	Grŵp 2 - Dod i rym



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru
33-35 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9HB

Board of Community Health Councils in Wales
33-35 Cathedral Road
CARDIFF
CF11 9HB

24 Tachwedd 2019

Annwyl *Dai*,

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiadau gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, ar y Bil uchod.

Hoffai'r Bwrdd a'r CICau ddiolch i chi am barhau i gefnogi'r angen am gorff llais y bobl annibynnol, a gwirioneddol gryfach, ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hefyd bod llawer o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr CIC, a sefydliadau eraill, wedi cael ei ystyried a'i adlewyrchu yn y Bil a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd, mae'r CICau wedi croesawu'r nodau eang ar gyfer y corff newydd, a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Bil. Credwn fod cynnwys y Bil yn mynd peth ffordd i adlewyrchu'r hyn mae pobl yn dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.

Roeddem yn falch o weld, er enghraifft, bod y cynigion yn bwriadu bydd y corff newydd yn:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl mewn ffyrdd gwahanol
- adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gyflwyno sylwadau i gyrff iechyd a gofal (gan gynnwys ar newidiadau i wasanaethau)
- rhoi cymorth i bobl dan 18 sydd am wneud cwyn am y GIG
- bod yn gorff annibynnol, arunigol, tu allan i'r GIG, sy'n gallu cyflogi ei staff ei hun a recriwtio ei aelodau gwirfoddol ei hun.

Fodd bynnag, mae'r CICau o'r farn o hyd bod yn rhaid gwneud y cynigion ar gyfer sefydlu corff llais y bobl newydd yn gryfach, mewn rhai meysydd allweddol, fel bod y corff newydd yn cael ei gyfarparu â'r adnoddau cywir i wneud y gwaith ledled Cymru. Mae rhai o'r awgrymiadau hyn wedi'u cynnwys yn argymhellion y pwyllgor craffu.


Credwn felly y dylid diwygio'r cynigion, fel bod yr egwyddorion allweddol canlynol, sy'n llywodraethu cynllun a gweithrediad y corff llais y dinesydd newydd, wedi'u hymgorffori yn y gyfraith:

- Rhaid i gorff llais y dinesydd allu ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt dderbyn gofal, drwy hawl mynediad i leoliadau iechyd a gofal.
- Dylai pobl allu gweld yn glir sut mae eu barnau a'u profiadau wedi goleuo a dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed gan gyrff iechyd a gofal.
- Dylai bod dyletswydd ar gyrff iechyd a gofal i helpu a chynorthwyo corff llais y dinesydd i gyflawni ei nodau a'i swyddogaethau.

- Mae angen ffocws lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar y corff llais y dinesydd, wedi'i ategu gan fframwaith cryf o aelodau gwirfoddol.
- Dylai'r corff llais y dinesydd allu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru.
- Mae angen yr offer a'r adnoddau i gyd ar gorff llais y dinesydd i wneud y gwaith.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth, a hyderwn y bydd y Bil nawr yn parhau drwodd i ail gam y broses.

Yr eiddoch yn gywir



Swyddog Prif
Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru

Dr Dai Lloyd AM
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF991NA

18 November 2019

Dear Dr Lloyd,

National Health Service (Indemnities) (Wales) Bill

Further to my letter of 24 October 2019, and following the publication of your Committee's report on the National Health Service (Indemnities) (Wales) Bill, I wanted to take this further opportunity to share some additional thoughts on behalf of the Medical Protection Society (MPS).

Firstly, I wanted to warmly welcome the Health, Social Care and Sport Committee endorsement of the principles of the Bill.

As we made the Committee aware in our written evidence of 18 October 2019, we were at that time in advance negotiations with the Welsh Government about the transfer of assets to an ELS scheme. I am delighted to be able to inform you that we now have reached an agreement with the Welsh Government. This agreement will ensure MPS general practice members in Wales can turn to a state-backed scheme for help with clinical negligence claims, no matter when in the future they become aware of a claim, or how much that claim settles for.

To ensure a smooth transition, MPS will continue to manage existing claims for GPs in Wales during an interim period. After this time, claims will be managed by NHS Wales Shared Services Partnership, which has extensive experience of managing clinical negligence claims on behalf of Health Boards. During this interim period, we will share our specific expertise in the management of general practice claims, so members continue to benefit from high standards of claims management beyond this period.

Secondly, I would like to place on the record, that MPS has found the experience of working with the Welsh Government to be an extremely constructive and collaborative experience. MPS has only got to this stage because we have engaged openly and directly with officials, underpinned by our desire to see a good scheme put in place for our members; that is what we have achieved.

Tudalen y pecyn 8

The swift passage of this legislation will be welcome. However, I must stress that the timing of it is irrelevant in relation to the ability of medical defence organisations (MDOs) to agree commercial terms with the Welsh Government. I appreciate that this has been of concern to the Committee, but I trust that our agreement with the Welsh Government will provide Assembly Members with reassurance.

Thirdly, can I strongly welcome the Committee's support for tort reform. MPS has long been at the forefront of calls for substantive reform, to address the rising cost of clinical negligence. As the Committee noted in its report, it is important that officials in the Welsh Government collaborate with their counterparts in Whitehall, to explore what the next steps for this important work could be.

I remain at the Committee's disposal if you would like to explore this issue further. Indeed, if I or MPS can be of any assistance to the Committee whatsoever, please do not hesitate to contact me.

Finally, can I pass on my sincere thanks to you and your AM colleagues, for your scrutiny of this Bill – especially as time has unfortunately been limited. Furthermore, can I also offer my sincere thanks to the clerks of your committee, who have provided my colleagues with such courteous and professional support while the Bill has been before you.

With best wishes,

Yours sincerely,



Howard Kew
Executive Director



Dai Lloyd AC
Cadeirydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dai.Lloyd@cynulliad.cymru

4 Rhagfyr 2019

Annwyl Dai

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) – corff Llais y Dinesydd newydd

Fel y gwyddoch, mae cyfnod 2 y Bil uchod wedi cychwyn er 27 Tachwedd 2019. Yn fy ymateb i gais y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am dystiolaeth ar y Bil drafft yng nghyfnod 1, amlygais mai'r dull gorau o sicrhau y bydd gofyn i Gorff Llais y Dinesydd newydd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg cyn gynted ag y bo modd fyddai trwy ddiwygio'r cyfeiriadau at gynghorau iechyd cymuned yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn Atodlen 3 y Bil. Yn fy marn i, mae hynny'n hanfodol er mwyn hwyluso trosglwyddo'r dyletswyddau hyn yn llyfn o'r Cynghorau Iechyd Cymuned i'r corff newydd.

Er bod ymrwymiad i barhau â'r drefn o osod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ac ymrwymiad penodol i gyflwyno rheoliadau ar gyfer cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr proffesiynol yn y maes iechyd, nid oes amserlen bellach na hynny wedi'i chadarnhau. Yn y cyfamser, mae rhai cyrff cyhoeddus, megis Addysg a Gwella Iechyd Cymru, nad oes gofyn iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg gan nad ydynt wedi'u henwi mewn rheoliadau perthnasol.

Felly, er mwyn sicrhau cysondeb a hwyluso trosglwyddo dyletswyddau iaith yn llyfn o'r cynghorau iechyd cymuned, rwy'n ystyried bod angen i Gorff Llais y Dinesydd gael ei ychwanegu i reoliadau safonau o'r cychwyn cyntaf. Byddai hynny yn fy ngalluogi i weithio gyda nhw yn syth ar ôl iddynt gael eu sefydlu.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyfraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyfraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Wrth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ystyried gwelliannau i'r Bil yng nghyfnod 2, gofynnaf i aelodau'r Pwyllgor ystyried cyflwyno gwlliant a fyddai'n diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i gynnwys Corff Llais y Dinesydd a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn Atodlen 3 y Bil hwn. Rwy'n ystyried bod y rheoliadau hynny'n gwbl addas i'w swyddogaethau heb yr angen i ddisgwyl am reoliadau pellach. Byddai'r modd hwn o weithredu yn gyson hefyd â'r modd y gosodwyd safonau ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhan 7 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.¹

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn tynnu eu sylw at y mater hwn yn ogystal. Mawr obeithiaf y bydd hyn yn arwain at sicrhau y bydd gofyn i gorff Llais y Dinesydd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon